

Profiad Gwaith

Y ffeithiau!



Pan ofynnir i gyflogwyr beth maent yn chwilio amdano mewn gradddedigion, mae profiad gwaith yn aml i'w weld tuag at frig y rhestr. Gan fod mwy o radddedigion yn mynd i mewn i'r farchnad waith bob blwyddyn, mae'n hanfodol bwysig eich bod yn gadael y brifysgol gyda mwy na'r wybodaeth a gawsoch trwy'ch pwnc gradd neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch yn unig. Bydd cyflogwyr yn disgwyl i chi allu dangos sgiliau a fydd yn eich galluogi i addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd, manteisio ar gyfleoedd ac aros yn gyflogadwy - a phrofiad gwaith yw un o'r ffyrdd gorau o ddatblygu a dangos y rhinweddau hyn. Yn wir, ar gyfer llawer o swyddi ar lefel graddedig, mae profiad gwaith bellach yn rhagofyniad a bydd rhai cyflogwyr yn defnyddio profiad gwaith yn rhan o'u proses recriwtio hyd yn oed.

➤ Beth sy'n cyfrif fel profiad gwaith?

Gorau oll os gallwch gael profiad gwaith ag iddo strwythur sy'n seiliedig ar brosiect, ond mae llawer o gyflogwyr yn credu y gallwch ddysgu llawer yn unrhyw weithle prysur. Gall unrhyw waith cyflogedig neu ddi-dâl a wnewch, o swydd achlysurol mewn archfarchnad i leoliad gwaith strwythuredig am flwyddyn, gyfrif fel profiad gwaith o safon cyhyd â'ch bod yn gwneud yn fawr o'r cyfle. Dyma rai o'r cyfleoedd am brofiad gwaith y gallech eu hystyried efallai:

- gwirfoddoli
- cysgodi rhywun yn y gwaith
- gwaith achlysurol (gan gynnwys swyddi rhan-amser yn ystod y tymor)
- gwaith prosiect (e.e. yn rhan o'ch cwrs)
- lleoliadau sy'n berthnasol i'ch cwrs a lleoliadau eraill
- lleoliadau gwyliau a lleoliadau gwaith

➤ Y manteision - mae profiad gwaith yn rhoi cymorth i chi:

- **Ennill arian** - mewn llawer o achosion cewch gyfle i ennill arian wrth ennill profiad gwerthfawr.
- **Gwneud penderfyniadau gwell a gwella eich gwybodaeth am waith** - un o'r ffyrdd gorau o ddod i benderfyniad terfynol am eich gyrfa yw cael profiad uniongyrchol o'r math o beth ydyw. Gallwch ddefnyddio profiad gwaith nid yn unig i werthuso'n wrthrychol rhyw waith yr hoffech ei wneud ar ôl graddio ond hefyd i gael gwybodaeth fewnol am gyflogwyr unigol.

- **Datblygu amrywiaeth o rinweddau a sgiliau i'r gweithle a werthfawrogir gan gyflogwyr** - nid yw gradd ar ei phen ei hun yn ddigon ac, er eich bod yn datblygu llawer o sgiliau hanfodol yn ystod eich astudiaethau, ni all dim gymharu â bod allan yn y gweithle. Mae hefyd yn amgylchedd gwych i ddatblygu eich ymwybyddiaeth fasnachol.
- **Rhoi dysgu ar waith** - bydd llawer o'r cyfleoedd am brofiad gwaith yn rhoi cyfle i chi roi'r sgiliau a'r wybodaeth y gwnaethoch ei dysgu yn y brifysgol ar waith, ac fe welwch yn aml eich bod wedi gwella eich dealltwriaeth pan fyddwch chi'n dychwelyd at eich astudiaethau.
- **Trwy'r broses recriwtio gradddedigion** - mae profiad gwaith yn gwella eich CV a gall roi ffynhonnell werthfawr o brofiadau i chi pan ofynnir i chi roi tystiolaeth o rinwedd personol neu sgil benodol ar ffurflenni cais neu mewn cyfweiliad. Mae hefyd yn dangos bod gennych ddiddordeb go iawn mewn sefydliad neu faes gyrfaol penodol.
- **Adeiladu rhwydwaith o gysylltiadau defnyddiol** - ni hysbysebir llawer o swyddi, felly cofiwch y dywediad "y bobl rydych chi'n eu nabod sy'n bwysig, nid y pethau a wyddoch."
- **Achub y blaen ar y dorf** - mae mwy a mwy o gyflogwyr yn targedu myfyrwyr yn gynnar yn ystod eu cyrsiau fel ffordd o sicrhau eu bod yn cael y gradddedigion gorau. Mae llawer yn defnyddio'r profiad gwaith sydd ganddynt i'w gynnig fel cam cyntaf yn eu proses recriwtio gradddedigion ac, o safbwynt cyflogwr, dyma ffordd dda o'ch 'rhoi ar brawf' i weld a ydych yn addas.

- **Rhoi geirda i chi** - gallwch ofyn i'ch cyflogwr am adborth am eich perfformiad - er bod y rhan fwyaf o leoliadau gwaith yn rhoi asesiad ffurfiol yn rhan o'r broses. Os ydych yn perfformio'n dda, bydd eich rheolwr llinell fel rheol yn fwy na bodlon i fod yn ganolwr i chi ar gyfer ceisiadau am swyddi yn y dyfodol.

➔ **Beth ddylech chi fod yn ei wneud nawr?**

Nid yw hi byth yn rhy gynnar i ddechrau meddwl am eich dyfodol - fe fydddech chi'n synnu faint y gallwch chi ei wneud yn eich blwyddyn gyntaf. Pryd bynnag y byddwch chi'n dechrau, dyma rai pethau sy'n bwysig i chi eu gwneud:

- Cymerwch ychydig o amser i feddwl beth hoffech chi ei gael o'ch profiad gwaith.
- Meddyliwch am ddewisiadau gyrfa posibl (galwedigaethau a/neu sectorau) sydd o ddiddordeb i chi a darganfod pa brofiad gwaith fyddai'n fwyaf manteisiol i chi.
- Ystyriwch pa wybodaeth, sgiliau a phrofiad sydd gennych eisoes a beth hoffech chi ei ddatblygu ymhellach.
- Edrychwch pa gyfleoedd am brofiad gwaith perthnasol sydd ar gael a phryd y bydd yn rhaid i chi ddechrau gwneud ceisiadau.
- Edrychwch ar ffactorau dylanwadol eraill megis amser, lleoliad a'ch sefyllfa ariannol a phenderfynwch faint o amser y gallwch ei roi a phryd.

➔ **Dod o hyd i brofiad gwaith**

Pan fyddwch yn ystyried cymryd y cam nesaf, mae llawer o ddewisiadau ar gael i'ch helpu i ddod o hyd i, ac i fanteisio i'r eithaf ar, eich profiad gwaith - ac mae gan y Gwasanaeth Gyrfaedd nifer o gynlluniau ac adnoddau i'ch helpu i ddechrau arni. Mae rhagor o fanylion ar gael ar-lein ar <https://www.aber.ac.uk/cy/careers/sourcing-work-experience/>.

➔ **Gwaith rhan-amser**

Ydych chi'n chwilio am swydd yn ystod y tymor? Mae'r Gwasanaeth Gyrfaedd yn cynnig amrediad eang o swyddi i fyfyrwyr yn yr ardal leol a, thra bod y rhan fwyaf o'r swyddi yn rhai achlysurol, efallai y dewch o hyd i rywbeth mwy penodol i'ch gyrfa. Y prif gymhelliad sydd gan fyfyrwyr yw ennill arian ychwanegol, ond cofiwch y gallwch ddatblygu sgiliau pwysig megis gweithio yn rhan o dîm, cyfathrebu a rheoli amser yn yr holl swyddi. Cofiwch hefyd, fodd bynnag, ei bod yn bwysig i chi adeiladu ar y profiad yr ydych yn ei gael o wneud gwaith achlysurol - mae gweithio mewn bar yn ystod y tymor yn iawn, er enghraifft, ond ceisiwch ddod o hyd i rywbeth ar lefel uwch yn ystod eich gwyliau haf. Rydym yn hysbysebu swyddi yn ystod y tymor ar ein cronfa ddata swyddi CysylltiadauAber (<https://careers.aber.ac.uk>) ond i gael rhagor o wybodaeth, siaradwch â'r staff yn ein swyddfa yn Undeb y Myfyrwyr.

➔ **Rhaglen GO Wales**

Mae'r Rhaglen GO Wales Cyflawni trwy Brofiad Gwaith ar gyfer myfyrwyr ifainc sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch yng Nghymru ac sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio sicrhau profiad gwaith. Mae tîm GO Wales yn cydweithio â phob math o gyflogwyr yng Nghymru i greu cyfleoedd profiad gwaith hyblyg ac unigryw sydd yn cyd-fynd ag ymrwymadau eraill myfyrwyr. Ydych chi dan 25 mlwydd oed mewn addysg amser llawn? Am fwy o wybodaeth am y Rhaglen a'r meini prawf cymhwysedd, cysylltwch â thîm GO Wales Aberystwyth gowales@aber.ac.uk.

➔ **Cynllun y Flwyddyn mewn Gwaith**

Mae Cynllun y Flwyddyn mewn Gwaith (BMG), sy'n unigryw bron ym mhrifysgolion Prydain, yn gyfle gwych i chi gymryd blwyddyn ddewisol allan rhwng eich ail a'ch trydedd flwyddyn i weithio mewn sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu dramor. Cewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau i'r gweithle yn ystod cyfnod o brofiad gwaith cyson ar lefel graddedig, cael seibiant o'ch astudiaethau ac ennill ychydig o arian. Ewch i www.aber.ac.uk/cy/careers/sourcing-work-experience/blwyddynmewngwaith i gael rhagor o wybodaeth neu e-bostiwch careers@aber.ac.uk.

➔ **AberYmlaen**

Mae'r Brifysgol yn deall yn llawn eich angen i gael profiad gwaith perthnasol ac, o ganlyniad, datblygwyd 'AberYmlaen', cyfle i ddysgu a datblygu ar gyfer myfyrwyr a graddedigion Prifysgol Aberystwyth! Mae'r rhaglen hon yn unigryw, sy'n cyfuno gwaith cyflogedig llawn-amser o fewn adran academiaidd neu wasanaeth Prifysgol Aberystwyth, gweithdai datblygiad proffesiynol a chymorth 1:1. Am fwy o wybodaeth, gweler <https://www.aber.ac.uk/cy/careers/sourcing-work-experience/aberforward/>.

➔ **Lleoliadau Gwyliau/Lleoliadau Gwaith**

Mae lleoliad gwyliau yn gyfnod o brofiad gwaith a wneir yn ystod gwyliau'r brifysgol - mae cyfleoedd ar gael dros y Nadolig, y Pasg ac, yn fwy tebygol, dros gwyliau'r haf lle mae cyfleoedd ar gael am hyd at 12 wythnos. Mae lleoliadau gwyliau/lleoliadau gwaith yn dangos i gyflogwyr eich bod wedi dewis defnyddio eich gwyliau yn adeiladol a'ch bod wedi dechrau ystyried eich dewisiadau gyrfa yn gynnar - ac maent yn aml yn cael eu defnyddio gan gyflogwyr yn rhan o'u proses recriwtio graddedigion. Mae'r cynlluniau hyn weithiau wedi'u cyfyngu i fyfyrwyr sydd yn eu blwyddyn olaf ond un, ac mae'r gystadleuaeth amdanynt yn frwd iawn a'r broses gwneud cais yn drwyadl, felly edrychwch ar y dyddiadau cau (Rhagfyr - Chwefror yn aml) a gwnewch gais yn gynnar! I ddechrau arni, galwch mewn i'n swyddfa yn Undeb y Myfyrwyr a chwiliwch ar ein cronfa ddata swyddi <https://careers.aber.ac.uk> am gyfleoedd.

➤ Gwaith Gwirfoddol

Mae gwaith gwirfoddol yn ffordd boblogaidd arall o ategu eich astudiaethau trwy roi cyfle i chi gael profiad ymarferol, ond peidiwch â chymryd yn ganiataol ei fod yn ddewis hawdd - mae'n rhaid bod yn ymroddedig a brwdfrydig! Er eich bod yn gweithio'n ddi-dâl, mae cyflogwyr yn ystyried gwaith gwirfoddol yr un mor o ddifrif ag unrhyw fath arall o waith ac mae rhai sectorau, yn arbennig y diwydiannau creadigol, yn disgwyl eich bod wedi ymgymryd â phrofiad gwaith o'r fath er mwyn cael eich pig i mewn. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r tudalennau gwaith gwirfoddol ar <https://www.aber.ac.uk/cy/careers/sourcing-work-experience/volunteering/>.

Mae **Myfyrwyr Aberystwyth sy'n Gwirfoddoli**, wedi'u lleoli yn Undeb y Myfyrwyr, yn recriwtio a chynorthwyo myfyrwyr ar amrediad o brosiectau yn y gymuned leol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch at - <https://www.umaber.co.uk/timaber/gwirfoddoli/>.

➤ Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Mae'n rhaid i gyflogwyr dalu isafswm cyflog i'w gweithwyr yn ôl y gyfraith. Gelwir hwn yn Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Ond mae rhai eithriadau i'r ddeddfwriaeth hon, er enghraifft cysgodi yn y gwaith neu os ydych yn gweithio i elusen, sefydliad gwirfoddol, corff codi arian cysylltiol neu gorff statudol. I gael rhagor o wybodaeth am yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, ewch i <https://www.gov.uk/national-minimum-wage>.

➤ Gwneud cais am brofiad gwaith

Dylid ystyried ceisiadau a chyfweliadau am brofiad gwaith yr un mor ddifrifol â cheisiadau a chyfweliadau am unrhyw swydd arall - yn arbennig rhai sydd ar gyfer cyfleoedd ar lefel graddedig. Ewch i swyddfa'r Gwasanaeth Gyrfaoedd i nôl adnoddau defnyddiol ac i siarad ag Ymgynghorydd .

➤ Ceisiadau ar hap - ehangu'r chwilio

Hyd yn oed gyda'r amrywiaeth eang o ddewisiadau profiad gwaith sydd ar gael, efallai y bydd yn rhaid i chi ehangu eich chwiliad o hyd. Nid yw pob sefydliad yn hysbysebu eu cyfleoedd ac mae ceisiadau ar hap yn ffordd effeithiol o gael profiad cyflogedig a di-dâl. Mae cais ar hap yn gais yr ydych yn ei wneud yn uniongyrchol i sefydliad nad yw'n hysbysebu swydd wag benodol ar hyn o bryd - gweler <https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/careers/pdf/Speculative-apps-Welsh-2019.pdf> am fwy o wybodaeth.

➤ Manteisiwch i'r eithaf arno!

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau sy'n cyflogi graddedig yn gofyn cwestiynau sy'n seiliedig ar gymhwysedd mewn cyfweliad a bydd eich gallu i fyfyrto ar, a chofnodi, eich hunanddatblygiad yn ystod cyfnod o brofiad gwaith yn allweddol bwysig i'ch llwyddiant yn y farchnad swyddi yn y dyfodol. Defnyddiwch GraddedigionAber <https://www.aber.ac.uk/cy/careers/undergraduate/abergrad/> neu offer cynllunio datblygiad personol eraill a gynigir gan eich adran i'ch cynorthwyo wrth gofnodi eich datblygiad.

➤ Gair i Gall

- **Meddyliwch o flaen llaw** - Gwnewch rywfaint o ymchwil. Peidiwch â gadael pethau tan y funud olaf oherwydd gall dyddiadau cau amrywio ac mae amseru yn hanfodol bwysig. Anfonwch eich cais neu'ch llythyr ar hap yn gynnar i achub y blaen ar y gweddill.
- **Mynnwch y profiad iawn** - Penderfynwch beth ydych chi'n chwilio amdano a nodwch amrediad o gyfleoedd addas a'r ffyrdd gorau o gael beth yr hoffech ei gael.
- **Y cais iawn** - Rhowch ddigon o feddwl i'ch cais - yr un faint ag y byddech chi'n ei roi i gais am swydd barhaol.
- **Gofynnwch i Ymgynghorydd Gyrfaoedd** ddarllen dros eich CV neu'ch ffurflen gais.
- **Yn ystod eich cyfnod yno - gwnewch argraff dda a gweithiwch yn galed** - Rhowch eich holl sylw i bob tasg - mae pob cyflogwr yn chwilio am weithwyr caled sy'n dangos arweiniad ac sydd â'r egni a'r penderfyniad i gwblhau tasgau. Cynigiwch wneud rhywbeth sydd y tu hwnt i'ch cylch gwaith neu'r hyn yr ydych wedi arfer ag ef - fe gewch chi bwyntiau ychwanegol am frwdfrydedd yn ogystal â phrofiad gwerthfawr. Rhowch gynnig ar brofiadau newydd os cewch chi gyfle neu dewch o hyd i'r cyfleoedd eich hun trwy wneud eich hun yn hysbys, cadw eich clustiau'n agored a sicrhau eich bod yn y lle iawn ar yr amser iawn.
- **Hunanfyfyrto ac adborth** - Meddyliwch beth yw eich cryfderau a pha sgiliau sy'n rhaid i chi eu datblygu. Bydd y rhan fwyaf o gyflogwyr yn eich helpu â hyn trwy roi adborth ffurfiol a fydd yn amhrisiadwy ar gyfer eich datblygiad yn y dyfodol. Peidiwch â phoeni os nad yw pethau wedi mynd yn ôl y disgwyl - weithiau rydych yn dysgu mwy mewn sefyllfaoedd o'r fath! Gallwch gadw cofnod o'ch datblygiad yn GraddedigionAber er mwyn ei drafod â'ch tiwtor yn ddiweddarach.
- **Rhwydweithio** - Dewch i adnabod cymaint o bobl â phosibl a chadwch mewn cysylltiad â hwy - gall y cysylltiadau hyn yn aml arwain at gyfleoedd yn ddiweddarach— gweler [https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/careers/pdf/Networking-\(welsh\)-2019.pdf](https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/careers/pdf/Networking-(welsh)-2019.pdf).
- **Geirda** - Gall lleoliad llwyddiannus arwain at eirda ardderchog felly, os yw pethau wedi mynd yn dda, gofynnwch i'ch rheolwr llinell a wnaiff ef/hi fod yn ganolwr i chi ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.
- **Ar ôl eich profiad gwaith, ysgrifennwch lythyr diolch** - ceisiwch adael y drws yn agored ar gyfer y dyfodol.
- **Cofiwch** - gall profiad gwaith llwyddiannus yn aml arwain at waith amser-llawn!

➔ Sut y gall y Gwasanaeth Gyrfaoedd helpu

Yn ogystal â'r cynlluniau a nodir uchod, gall y Gwasanaeth Gyrfaoedd helpu mewn nifer o ffyrdd eraill...

- **Ewch i'n gwefan.** Ceir manylion am y cynlluniau a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer dod o hyd i brofiad gwaith ar ein gwefan ar www.aber.ac.uk/cy/careers. Dilynwch y ddolen Chwilota am Brofiad Gwaith o'n blaendalen.
- **Cymerwch gopiâu o adnoddau rhad ac am ddim** o'n swyddfa yn Undeb y Myfyrwyr gan gynnwys ein cyhoeddiadau a'n taflenni hanfodol.
- **Defnyddiwch y gwasanaeth galw-i-mewn**, sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor, er mwyn i Ymgynghorydd Gyrfaoedd ddarllen dros eich CV neu'ch ffurflen gais.
- **Gwnewch apwyntiad ag Ymgynghorydd Gyrfaoedd** os hoffech drafod eich dewisiadau yn fanylach.
- **Gweithgareddau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd.** Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddod i rai o'r gweithgareddau a gynhelir gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd, er enghraifft cyflwyniadau gan gyflogwyr, gweithdai neu weithgareddau recriwtio. Gweler y ddolen 'Gweithgareddau' ar AberYmlaen - <https://careers.ac.uk>.

Lleoliadau a Manylion Cysylltu

- ➔ **Gwasanaeth Gyrfaoedd**
Undeb y Myfyrwyr (drws nesaf i Siop yr Undeb)
Ar agor: dydd Llun - dydd Iau 9.00 yb - 5.00 yp a
dydd Gwener 9.00 yb - 4.00 yp
Ar gau rhwng 1.00 a 2.00 yp
Ffôn: 01970 622378
E-bost: careers@aber.ac.uk